Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 88 (Cy. 22)

# BWYD, CYMRU

# Rheoliadau Bara a Blawd (Cymru) 2025

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â bara a blawd sydd i'w werthu yng Nghymru, neu ei fewnforio neu ei symud i Gymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli (gyda diwygiadau) Reoliadau Bara a Blawd 1998 (O.S. 1998/141) i'r graddau y mae'r rheoliadau hynny'n gymwys o ran Cymru.

Mae rheoliad 3 ac Atodlenni 1 i 3 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chynhwysion hanfodol ar gyfer blawd sy'n deillio o wenith cyffredin (*Triticum aestivum* L.), pa un a yw'n gymysg â blawd arall ai peidio.

Mae rheoliad 3(2) a (3) yn gwahardd gwerthu gan bersonau sy'n cynhyrchu blawd wrth gynnal busnes, a mewnforio neu symud i Gymru gan bersonau sy'n gweithredu wrth gynnal busnes a gwerthu dilynol ganddynt hwythau, flawd sy'n deillio o wenith cyffredin nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion cyfnerthu gorfodol.

Rhagnodir y gofynion cyfnerthu mandadol ar gyfer blawd sy'n deillio o wenith cyffredin gan reoliad 3(4), ac Atodlenni 1 i 3.

Mae paragraff 1 o Atodlen 1 yn darparu bod rhaid i flawd sy'n deillio o wenith cyffredin gael ei gyfnerthu gyda symiau penodedig o'r ffurfiau rhagnodedig o galsiwm carbonad ac asid ffolig. Mae esemptiadau penodedig a chyfyngedig i'r gofyniad o ran cyfnerthu â chalsiwm carbonad. Mae'r gofyniad i gyfnerthu ag asid ffolig yn gymwys o 13 Rhagfyr 2026.

Mae paragraff 2(1) o Atodlen 1 yn darparu bod rhaid i flawd sy'n deillio o wenith cyffredin gynnwys lefelau isaf o haearn, niasin a thiamin. Mae paragraff 2(2) yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag ychwanegu

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ffurfiau rhagnodedig o'r sylweddau hynny pan fo angen cyfnerthu i fodloni'r lefelau isaf hynny.

Mae Atodlen 2 yn cynnwys y fanyleb ar gyfer y ffurf o galsiwm carbonad a ganiateir.

Mae Atodlen 3 yn cynnwys y fanyleb ar gyfer un o'r ffurfiau o haearn a ganiateir (powdr haearn).

Nodir esemptiadau penodol rhag y gofynion cyfnerthu mandadol ar gyfer blawd gwenith cyflawn, blawd a gynhyrchir gan felinau bach, a blawd i'w ddefnyddio mewn cynhyrchion penodedig penodol, yn rheoliad 3(5). Gweler hefyd reoliadau 6 a 7 ar gyfer esemptiadau cyffredinol cymwys.

Mae rheoliad 4 yn gwahardd defnyddio (gan unrhyw berson) gyfryngau cannu blawd fel ychwanegion bwyd wrth baratoi bara neu flawd (yn ddarostyngedig i'r esemptiadau cyffredinol yn rheoliadau 6 a 7).

Mae rheoliad 5 yn gosod gofynion o ran defnyddio, fel rhan o enw bara (wrth werthu, hysbysebu neu labelu'r bara), y termau "gwenith cyflawn" a "wholemeal", "bywyn gwenith" a "wheat germ", a thermau cyfatebol mewn ieithoedd eraill (yn ddarostyngedig i'r esemptiadau cyffredinol yn rheoliadau 6 a 7).

Mae rheoliadau 6 a 7 yn cynnwys esemptiadau cyffredinol rhag rheoliadau 3 i 5 ar gyfer bara a blawd a gynhyrchir ar gyfer y defnyddiau esempt a ganlyn—

- bara neu flawd nad yw i'w fwyta gan bobl;
- bara neu flawd sydd i'w allforio i drydedd wlad, neu i'w ddefnyddio wrth gynhyrchu bwyd sydd i'w allforio i drydedd wlad.

Mae rheoliad 8 yn gwahardd defnyddio, gan fusnesau wrth gynhyrchu bwyd, fara a blawd sy'n cael ei esemptio gan reoliadau 3(5)(c), 3(5)(d), 6 neu 7 ac eithrio ar gyfer y defnyddiau esempt.

Mae rheoliad 9 yn pennu bod awdurdodau bwyd yng Nghymru yn gyfrifol am orfodi'r Rheoliadau yn eu hardaloedd.

Mae rheoliad 10 yn gwneud darpariaeth i swyddogion awdurdodedig yr awdurdodau bwyd ddefnyddio hysbysiadau gwella i orfodi gofynion y Rheoliadau.

Mae rheoliad 11 yn darparu bod methiant i gydymffurfio â hysbysiad gwella yn drosedd.

Mae rheoliad 12 yn darparu ar gyfer apêl i lys ynadon yn erbyn hysbysiad gwella.

Mae rheoliad 13 yn cymhwyso (gydag addasiadau) y darpariaethau a ganlyn o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 i'r Rheoliadau hyn—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

- adran 3 – y rhagdybiaeth y bwriedir i fwyd gael ei fwyta gan bobl;
- adran 20, i alluogi dwyn achos ar gyfer trosedd o dan reoliad 11 yn erbyn person heblaw'r person sydd wedi methu â chydymffurfio â hysbysiad gwella, pan fo'r methiant i gydymffurfio o ganlyniad i weithred neu ddiffyg y person arall hwnnw;
- adran 21(1) a (5), i ddarparu ar gyfer amddiffyniad diwydrwydd dyladwy;
- adran 30(8), i ddarparu i dystysgrifau o ran canlyniadau dadansoddiad o sampl gael eu derbyn, mewn achosion gorfodi o dan y Rheoliadau hyn, fel tystiolaeth o'r ffeithiau a ddatgenir yn y dystysgrif;
- adrannau 33 a 35(1) a (2), i'w gwneud yn drosedd i rwystro yn fwriadol bersonau sy'n gweithredu'r Rheoliadau hyn, neu i fethu â rhoi i'r personau hynny gynhorthwy neu wybodaeth pan fo'n rhesymol ofynnol gwneud hynny, neu i roi gwybodaeth anwir neu gamarweiniol;
- adrannau 36 a 36A, o ran sut y mae'r troseddau yn gymwys i gyrff corfforedig etc;
- adran 44, i ddarparu amddiffyniad i swyddogion awdurdodedig awdurdodau bwyd sy'n gweithredu'n ddidwyll wrth orfodi'r Rheoliadau hyn;
- adran 50, i gymhwyso gofynion o ran dyroddi hysbysiad gwella yn briodol, a'r dyddiad y dyroddir hysbysiad pan fo'r hysbysiad hwnnw wedi ei ddyroddi drwy'r post.

Mae rheoliad 14 yn dirymu, o ran Cymru, Reoliadau Bara a Blawd 1998.

Mae rheoliad 15 yn gwneud darpariaeth drosiannol sy'n cael effaith hyd at ddiwedd 12 Rhagfyr 2026, i alluogi parhau i gynhyrchu blawd a'i roi ar y farchnad yng Nghymru yn ystod y cyfnod trosiannol, mewn cydymffurfedd ag unrhyw un neu ragor o ofynion cyfnerthu Rheoliadau Bara a Blawd 1998 fel yr oeddent yn gymwys yn union cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

Mae rheoliad 16 yn gwneud darpariaeth drosiannol bellach sy'n cael effaith o 13 Rhagfyr 2026 – sef y dyddiad y daw'r gofyniad cyfnerthu ag asid ffolig i rym. Mae'r ddarpariaeth yn galluogi i stociau o fara a blawd a roddir yn gyfreithlon ar y farchnad neu a labelir cyn y dyddiad hwnnw i barhau i gael eu marchnata hyd nes i'r stociau gael eu disbyddu.

Gellir edrych ar The British Pharmacopeia 1973 a 2023, y cyfeirir atynt yn Atodlen 1, o ran 1973, yn Adran Benthyca Llyfrgell Prydain Boston Spa,

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Wetherby, Gorllewin Swydd Efrog, L23 7BQ Ffôn 01937 546 060 ac, o ran 2023, yn y silffnod (B) 615.1141 yn Ystafell Ddarllen Gwyddoniaeth 3, y Llyfrgell Brydeinig, safle St Pancras, 96 Euston Road, Llundain, NW1 2DB.

Gellir cael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys mewn perthynas â dogfennau y cyfeirir atynt yn y Rheoliadau hyn, gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru, Llawr 4, Adeilad Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ neu drwy ysgrifennu at regulated.products.wales@food.gov.uk.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru (gweler uchod).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2025 Rhif 88 (Cy. 22)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Bara a Blawd (Cymru) 2025

*Gwnaed* *27 Ionawr 2025*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *29 Ionawr 2025*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 6(4), 16(1)(a), (c), (e) ac (f), 18(1)(c), 26(1)(a), (2)(e) a (3), a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i gyngor a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd fel sy'n ofynnol gan adran 48(4A) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**2**).

Cynhaliwyd ymgynghoriad fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o

(**1**) 1990 p. 16. Diwygiwyd adran 6(4) gan baragraff 6 o Atodlen 9 i Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 (p. 40), paragraff 10(3) o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p. 28) ac Atodlen 6 iddi, a chan Atodlen 2 i O.S. 2002/794. Diwygiwyd adrannau 16(1), 18(1) ac 48(1) gan baragraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999, a diwygiwyd adran 26(3) gan Atodlen 6 i'r Ddeddf honno. Trosglwyddwyd y swyddogaethau perthnasol o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, a oedd gynt yn arferadwy gan "the Ministers", i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999. Mae'r swyddogaethau hynny bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) Mewnosodwyd adran 48(4A) gan baragraff 21 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999. Cymerodd y diwygiad hwnnw effaith yn ddarostyngedig i adran 40(3) o'r Ddeddf honno.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ran materion diogelwch bwyd(**1**), wrth lunio a gwerthuso'r Rheoliadau hyn.

### Enwi, dod i rym, rhychwant a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bara a Blawd (Cymru) 2025.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 19 Chwefror 2025.

(3) Daw'r darpariaethau a ganlyn i rym ar 13 Rhagfyr 2026—

(a) rheoliad 3(4) a pharagraff 1 o Atodlen 1 i'r graddau y mae'r darpariaethau hynny yn gosod gofynion sy'n ymwneud ag ychwanegu asid ffolig at flawd sy'n deillio o wenith cyffredin;

(b) rheoliad 16.

(4) Mae'r Rheoliadau hyn—

(a) yn rhychwantu Cymru a Lloegr;

(b) yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

mae "awdurdod bwyd" yn cyfeirio at awdurdod bwyd yng Nghymru o fewn yr ystyr â roddir i "food authority" yn adran 5(1A) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**2**);

ystyr "bara" ("*bread*") yw bwyd o unrhyw faint, siâp neu ffurf sydd—

(a) fel arfer yn cael ei alw'n fara, a

(b) wedi ei gyfansoddi o does wedi ei wneud o flawd a dŵr, gyda chynhwysion eraill neu hebddynt, sydd wedi ei eplesu gan furum neu wedi ei lefeinio fel arall ac wedi ei bobi neu ei bobi yn rhannol wedi hynny,

ond nid yw'n cynnwys byns, torthau byns, tsiapatis, bara chola, bara pita, bara tatws na bara sydd wedi ei baratoi'n arbennig ar gyfer dioddefwyr seliag;

ystyr "blawd" ("*flour*") yw'r cynnyrch sy'n deillio o, neu sydd wedi ei wahanu yn ystod, melino neu falu grawnfwyd wedi ei lanhau pa un a yw'r grawnfwyd wedi ei fragu neu wedi bod yn ddarostyngedig i unrhyw broses arall ai peidio, ac mae'n cynnwys blawd, ond nid yw'n cynnwys cynhyrchion grawnfwyd eraill, megis bran

---

(**1**) EUR 2002/178, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/641; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(**2**) Mewnosodwyd adran 5(1A) gan baragraff 16(1) o Atodlen 9 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

grawnfwyd gwahanedig, bywyn grawnfwyd gwahanedig, semolina neu rynion;

ystyr "blawd gwenith cyflawn" ("*wholemeal flour*") yw'r blawd sydd wedi ei gyfansoddi o'r cyfan o'r cynnyrch a geir o felino neu falu grawnfwydydd wedi eu glanhau;

mae i "bwyd" yr ystyr a roddir i "food" yn adran 1(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990;

mae i "cynhwysyn" yr ystyr a roddir i "ingredient" yn Erthygl 2(2)(f) o Reoliad (EU) Rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr(**1**);

ystyr "gwenith cyffredin" ("*common wheat*") yw *Triticum aestivum* L.;

mae "gwerthu" ("*sell*") yn cynnwys—

(a) cynnig, dangos neu feddiannu ar gyfer gwerthiant, a

(b) ystyr estynedig gwerthu yn adran 2 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**2**) fel y'i cymhwysir gan reoliad 13 o'r Rheoliadau hyn;

mae i "labelu" yr ystyr a roddir i "labelling" yn Erthygl 2(2)(j) o Reoliad (EU) Rhif 1169/2011;

mae i "swyddog awdurdodedig" mewn perthynas ag awdurdod bwyd yr ystyr a roddir i "authorised officer" yn adran 5(6) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**3**).

**Cynhwysion hanfodol ar gyfer blawd sy'n deillio o wenith cyffredin**

**3.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas â blawd sy'n deillio o wenith cyffredin, pa un a yw'n gymysg â blawd arall ai peidio.

(2) Ni chaiff person sy'n cynhyrchu blawd wrth gynnal busnes werthu blawd sy'n deillio o wenith cyffredin nad yw'n cydymffurfio â'r rheoliad hwn.

(3) Ni chaiff person sy'n gweithredu wrth gynnal busnes fewnforio na symud i Gymru unrhyw flawd sy'n deillio o wenith cyffredin, na gwerthu blawd o'r fath sydd wedi ei fewnforio neu ei symud i Gymru ganddo, nad yw'n cydymffurfio â'r rheoliad hwn.

(4) Rhaid i flawd sy'n deillio o wenith cyffredin gynnwys y sylweddau a bennir yn Atodlen 1 i'r

(**1**) EUR 2011/1169; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2019/529, 778, 2020/1627. Diwygiwyd O.S. 2019/529 gan O.S. 2020/1501.

(**2**) Diwygiwyd adran 2 gan baragraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999. Cymerodd y diwygiad hwnnw effaith yn ddarostyngedig i adran 40(3) o'r Ddeddf honno.

(**3**) Diwygiwyd adran 5(6) gan baragraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999. Daeth y diwygiad hwnnw i rym yn ddarostyngedig i adran 40(3) o'r Ddeddf honno.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Rheoliadau hyn yn unol â'r darpariaethau a nodir yn yr Atodlen honno(**1**).

(5) Nid yw paragraff (4) yn gymwys i—

(a) blawd gwenith cyflawn;

(b) blawd a gynhyrchir mewn safle cynhyrchu sydd, ar adeg y cynhyrchu—

(i) â chapasiti cynhyrchu blynyddol uchaf o 500 tunnell fetrig o flawd neu lai, a

(ii) wedi cynhyrchu llai na 500 tunnell fetrig o flawd ar gyfer pob un o'r tair blynedd galendr ddiwethaf;

(c) blawd i'w ddefnyddio wrth gynhyrchu afrlladau, matsos, glwten neu startsh;

(d) unrhyw baratoad crynoëdig i'w ddefnyddio at ddiben hwyluso ychwanegu at flawd sylweddau fel sy'n ofynnol gan baragraff (4).

**Gwahardd defnyddio cyfryngau cannu blawd**

**4.**—(1) Ni chaiff person ddefnyddio cyfrwng cannu blawd wrth baratoi bara neu flawd.

(2) Yn y rheoliad hwn—

(a) mae "cyfrwng cannu blawd" yn ychwanegyn bwyd a ddefnyddir yn bennaf i dynnu lliw o flawd;

(b) mae i "ychwanegyn bwyd" yr ystyr a roddir i "food additive" yn Erthygl 3(2)(a) o Reoliad (EC) Rhif 1333/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegion bwyd(**2**).

**Gofynion mewn perthynas â defnyddio'r termau "gwenith cyflawn" a "bywyn gwenith"**

**5.**—(1) Ni chaiff person sy'n gweithredu wrth gynnal busnes werthu na hysbysebu i'w werthu unrhyw fara yn groes i'r rheoliad hwn.

(2) Wrth labelu neu hysbysebu bara, ni chaniateir defnyddio term a bennir ym mharagraff (3) fel rhan o enw'r bara, pa un a yw wedi ei oleddfu gan eiriau eraill ai peidio, ond pan fodlonir gofynion y paragraff hwnnw mewn perthynas â'r term hwnnw.

(3) Caniateir defnyddio'r term—

(a) "gwenith cyflawn", "wholemeal" neu'r term cyfatebol mewn unrhyw iaith arall pan fo'r holl flawd a ddefnyddir fel cynhwysyn wrth baratoi'r bara yn flawd gwenith cyflawn;

(b) "bywyn gwenith", "wheat germ" neu'r term cyfatebol mewn unrhyw iaith arall pan fo'r

(**1**) Gweler rheoliadau 15 ac 16 am ddarpariaeth drosiannol.

(**2**) EUR 2008/1333, y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

bara yn cynnwys bywyn gwenith wedi ei brosesu a ychwanegwyd o 10% neu fwy wedi ei gyfrifo ar ddeunydd sych y bara.

### Defnyddiau esempt cyffredinol

**6.**—(1) Nid yw rheoliadau 3 i 5 yn gymwys i fara neu flawd sydd ar gyfer unrhyw ddefnydd heblaw ar gyfer ei fwyta gan bobl.

(2) Ond mae rheoliad 5 yn gymwys i fara o'r fath i'r graddau y mae'r rheoliad hwnnw yn ymwneud â hysbysebu.

**7.**—(1) Nid yw rheoliadau 3 i 5 yn gymwys i fara neu flawd sydd ar gyfer y defnyddiau esempt a ganlyn os nodir yn glir y defnyddiau esempt o'r bara neu'r blawd yn Saesneg, neu yn y Gymraeg a'r Saesneg, ar y labelu—

(a) bara neu flawd i'w allforio i drydedd wlad;

(b) bara neu flawd i'w ddefnyddio wrth gynhyrchu bwyd sydd i'w allforio i drydedd wlad.

(2) Ym mharagraff (1), ystyr "trydedd wlad" yw unrhyw wlad ac eithrio'r Deyrnas Unedig, ac mae'n cynnwys—

(a) Beilïaeth Guernsey;

(b) Beilïaeth Jersey;

(c) Ynys Manaw.

### Cyfyngu ar ddefnyddio bara a blawd a esemptiwyd

**8.** Ni chaiff person sy'n gweithredu wrth gynnal busnes ddefnyddio, wrth gynhyrchu bwyd, fara neu flawd sydd wedi eu hesemptio gan reoliadau 3(5)(c), 3(5)(d), 6 neu 7 ac eithrio at ddefnydd sydd wedi ei esemptio gan y rheoliadau hynny.

### Gorfodi

**9.** Rhaid i bob awdurdod bwyd orfodi a gweithredu'r Rheoliadau hyn yn ei ardal.

### Hysbysiadau gwella

**10.**—(1) Caiff swyddog awdurdodedig awdurdod bwyd ddyroddi hysbysiad ("hysbysiad gwella") i berson os oes gan y swyddog sail resymol dros gredu nad yw'r person wedi cydymffurfio, neu nad yw'n cydymffurfio, ag un neu ragor o'r darpariaethau perthnasol.

(2) Y "darpariaethau perthnasol" yw rheoliadau 3(2), 3(3), 4(1), 5(1) ac 8.

(3) Rhaid i hysbysiad gwella fod yn ysgrifenedig, a rhaid iddo gynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) seiliau'r swyddog awdurdodedig dros gredu nad yw'r person wedi cydymffurfio, neu nad yw'n cydymffurfio, â'r ddarpariaeth berthnasol;

(b) y weithred neu anweithred sy'n ffurfio'r methiant i gydymffurfio â'r ddarpariaeth berthnasol;

(c) y mesurau, ym marn y swyddog awdurdodedig, y mae rhaid i'r person eu cymryd i sicrhau cydymffurfedd â'r ddarpariaeth berthnasol;

(d) dyddiad dyroddi'r hysbysiad(**1**);

(e) y cyfnod y mae rhaid cymryd y mesurau gofynnol, neu fesurau sydd o leiaf yn gyfatebol iddynt, ynddo (y "cyfnod cydymffurfio");.

(f) manylion y person y caniateir cyflwyno sylwadau iddo am yr hysbysiad, a manylion o ran sut ac erbyn pa bryd y caniateir gwneud hynny;

(g) yr hawl i apelio i lys ynadon, gan gynnwys y cyfnod y caniateir gwneud apêl ynddo;

(h) esboniad o ganlyniadau methiant i gydymffurfio â gofynion yr hysbysiad.

(4) Y "cyfnod cydymffurfio" yw'r cyfnod a benderfynir gan y swyddog awdurdodedig ac a bennir yn yr hysbysiad gwella, sef 14 o ddiwrnodau o leiaf sy'n dechrau â'r dyddiad y dyroddir yr hysbysiad.

### Y drosedd a'r gosb

**11.**—(1) Mae person sy'n methu â chydymffurfio â hysbysiad gwella yn cyflawni trosedd.

(2) Mae person sy'n euog o drosedd o dan baragraff (1) yn agored, o'i euogfarnu'n ddiannod, i ddirwy.

### Apelau yn erbyn hysbysiadau gwella

**12.**—(1) Caiff person y dyroddir hysbysiad gwella iddo apelio i lys ynadon yn erbyn yr hysbysiad.

(2) Rhaid gwneud apêl cyn y cynharaf o blith—

(a) diwedd y cyfnod cydymffurfio, neu

(b) diwedd y cyfnod o un mis sy'n dechrau â dyddiad dyroddi'r hysbysiad gwella.

(3) Mae apêl i'w chyflwyno ar ffurf cwyn am orchymyn, ac yn unol â Deddf Llysoedd Ynadon 1980(**2**).

---

(**1**) Gweler rheoliad 13(2)(1), sy'n cymhwyso adran 50 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (gydag addasiadau) o ran y pwynt y dyroddir hysbysiad gwella arno.

(**2**) 1980 p. 43.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(4) Ar apêl, caiff y llys ynadon—

(a) cadarnhau'r hysbysiad gwella, gydag addasiadau neu hebddynt, neu

(b) canlso'r hysbysiad gwella.

(5) Pan wneir apêl, atelir cyfnod cydymffurfio'r hysbysiad gwella am y cyfnod y mae'r apêl yn yr arfaeth ynddo.

(6) Ym mharagraff (5), mae'r apêl yn yr arfaeth nes ei bod yn cael ei phenderfynu'n derfynol neu'n cael ei thynnu'n ôl.

**Cymhwyso darpariaethau amrywiol Deddf Diogelwch Bwyd 1990**

**13.**—(1) Mae darpariaethau Deddf Diogelwch Bwyd 1990 a nodir ym mharagraff (2) yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn—

(a) fel pe bai unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, neu at unrhyw Ran o'r Ddeddf honno, yn gyfeiriad at y Rheoliadau hyn;

(b) gydag unrhyw addasiadau a bennir ym mharagraff (2).

(2) Dyma'r darpariaethau—

(a) adran 2 (ystyr estynedig "gwerthu" etc.);

(b) adran 3 (rhagdybiaethau y bwriedir i fwyd gael ei fwyta gan bobl);

(c) adran 20 (troseddau oherwydd bai person arall);

(d) adran 21(1) a (5) (amddiffyniad diwydrwydd dyladwy);

(e) adran 30(8) (tystiolaeth o dystysgrifau a roddir gan ddadansoddydd neu archwilydd bwyd);

(f) adran 33 (rhwystro etc. swyddogion);

(g) adran 35(1)([1]) (cosbi troseddau) i'r graddau y mae'n ymwneud â throsedd o dan adran 33(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 fel y'i cymhwysir gan y rheoliad hwn;

(h) adran 35(2)([2]) (cosbi troseddau) i'r graddau y mae'n ymwneud â throsedd o dan adran 33(2) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 fel y'i cymhwysir gan y rheoliad hwn;

(i) adran 36 (troseddau gan gyrff corfforedig);

---

(**1**) Diwygir adran 35(1) gan baragraff 42 o Atodlen 26 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (p. 44), o ddyddiad sydd i'w bennu.

(**2**) Diwygiwyd adran 35(2) gan O.S. 2015/664.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(j) adran 36A(**1**) (troseddau gan bartneriaethau Albanaidd);

(k) adran 44 (amddiffyn swyddogion sy'n gweithredu'n ddidwyll);

(l) adran 50(**2**) (cyflwyno dogfennau) fel pe bai—

(i) cyfeiriadau at "given to or served on", a "given or served" yn cynnwys "issued to" ac "issued", yn y drefn honno, a

(ii) cyfeiriadau at gyflwyno dogfen drwy ei hanfon mewn llythyr rhagdaledig yn gyfeiriadau at gyflwyno'r ddogfen honno drwy'r post yn unol ag adrannau 13 a 14 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019(**3**).

**Dirymu**

**14.** Mae Rheoliadau Bara a Blawd 1998(**4**) wedi eu dirymu.

**Darpariaeth drosiannol yn dod i rym ar 19 Chwefror 2025**

**15.** Hyd at ddiwedd 12 Rhagfyr 2026, bernir bod blawd sy'n deillio o wenith cyffredin nad yw'n cydymffurfio â rheoliad 3(4) o'r Rheoliadau hyn mewn perthynas â sylwedd yn cydymffurfio â'r rheoliad hwnnw er hynny pe bai wedi cydymffurfio mewn perthynas â'r sylwedd hwnnw â rheoliad 4(1) o Reoliadau Bara a Blawd 1998 fel yr oeddent yn cael effaith yn union cyn 19 Chwefror 2025.

**Darpariaeth drosiannol yn dod i rym ar 13 Rhagfyr 2026**

**16.**—(1) Bernir bod blawd sy'n deillio o wenith cyffredin nad yw'n cydymffurfio â rheoliad 3(4) o'r Rheoliadau hyn yn cydymffurfio â'r rheoliad hwnnw er hynny os—

(a) y cafodd ei roi ar y farchnad yn gyfreithlon neu ei labelu yn gyfreithlon cyn diwedd 12 Rhagfyr 2026, a

(b) y byddai wedi cydymffurfio, neu y bernid ei fod wedi cydymffurfio, â rheoliad 3(4) o'r

---

(**1**) Mewnosodwyd adran 36A gan baragraff 16 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999.

(**2**) Diwygiwyd adran 50 gan baragraff 18 o Atodlen 16 i Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 (p. 40).

(**3**) 2019 dccc 4. Diwygiwyd adrannau 13 a 14 gan baragraff 5(3) ac (8) o Atodlen 1 i Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1).

(**4**) O.S. 1998/141; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1999/1136, 2014/2303 (Cy. 227), 2018/806 (Cy. 162), 2022/112 (Cy. 40).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Rheoliadau hyn fel yr oeddent yn cael effaith yn union cyn 13 Rhagfyr 2026.

(2) Ym mharagraff (1), ystyr "roi ar y farchnad" yw dal bwyd at ddiben gwerthu neu unrhyw ffurf arall o drosglwyddo, pa un ai'n ddi-dâl ai peidio, a gwerthu, dosbarthu a ffurfiau eraill o drosglwyddo eu hunain.

*Sarah Murphy*
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
27 Ionawr 2025

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# ATODLEN 1

Rheoliad 3

## Cynhwysion hanfodol ar gyfer blawd sy'n deillio o wenith cyffredin

**Sylweddau y mae rhaid eu hychwanegu at flawd sy'n deillio o wenith cyffredin mewn cyfrannau penodol**

**1.** Rhaid ychwanegu'r sylweddau a restrir yng ngholofn 1 o Dabl 1 at flawd sy'n deillio o wenith cyffredin yn y cyfrannau ac yn unol â'r darpariaethau eraill a bennir yng ngholofn 2.

**Tabl 1**

| ***Colofn 1***<br>***Sylwedd*** | ***Colofn 2***<br>***Maint y sylwedd i'w ychwanegu a darpariaethau eraill mewn perthynas ag ychwanegu'r sylweddau hynny*** |
|---|---|
| **Calsiwm carbonad** | (a) O leiaf 300 mg/100 g o flawd.<br>(b) Dim mwy na 455 mg/100 g o flawd.<br>(c) Rhaid ychwanegu'r sylwedd ar ffurf E 170 calsiwm carbonad sy'n cydymffurfio â'r fanyleb a nodir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.<br>(d) Ond nid yw'n ofynnol ychwanegu calsiwm carbonad at flawd sydd—<br>(i) yn flawd codi â chynnwys calsiwm o 0.2% neu fwy, neu<br>(ii) blawd brag gwenith. |
| **Asid ffolig** | (a) 0.25 mg/100 g blawd<br>(b) Rhaid ychwanegu'r sylwedd ar ffurf asid pteroylmonoglwtamig sy'n cydymffurfio â'r meini prawf yn y monograff ar gyfer asid ffolig hydrad a gynhwysir yn y British Pharmacopoeia 2023 ar dudalen I-1110. |

**Sylweddau y mae rhaid iddynt fod yn bresennol mewn blawd sy'n deillio o wenith cyffredin ar gyfrannau penodedig neu'n uwch na hynny**

**2.**—(1) Rhaid i'r sylweddau a restrir yng ngholofn 1 o Dabl 2 fod yn bresennol mewn blawd sy'n deillio o wenith cyffredin yn y cyfrannau a bennir yng ngholofn 2.

(2) Pan fo angen ychwanegu sylweddau er mwyn bodloni'r cyfrannau gofynnol a bennir yng ngholofn 2 o Dabl 2, rhaid ychwanegu'r sylweddau yn unol â'r darpariaethau eraill a bennir yn y golofn honno.

**Tabl 2**

| ***Colofn 1***<br>***Sylwedd*** | ***Colofn 2***<br>***Maint y sylwedd y mae rhaid iddo fod yn bresennol mewn blawd a darpariaethau eraill mewn perthynas ag ychwanegu'r sylweddau hynny*** |
|---|---|
| **Haearn** | (a) O leiaf 2.10 mg/100 g o flawd.<br>(b) Rhaid i unrhyw ychwanegiad o'r sylwedd fod ar ffurf unrhyw un o'r canlynol, neu unrhyw gyfuniad o'r canlynol—<br>(i) citrad amoniwm fferrig sy'n cydymffurfio â'r meini prawf yn y monograff ar gyfer citrad amoniwm fferrig a gynhwysir yn y British Pharmacopoeia 1973 ar dudalen 201;<br>(ii) sylffad fferrus sy'n cydymffurfio â'r meini prawf yn y monograff ar gyfer sylffad fferrus heptahydrad a gynhwysir yn y British Pharmacopoeia 2023 ar dudalen I-1037;<br>(iii) sylffad fferrus sych sy'n cydymffurfio â'r meini prawf yn y monograff ar gyfer sylffad fferrus sych a gynhwysir yn y British Pharmacopoeia 2023 ar dudalen I-1036; |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | |
|---|---|
| | (iv) powdr haearn sy'n cydymffurfio â'r fanyleb a gynhwysir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn. |
| **Niasin** | (a) O leiaf 2.40 mg/100 g o flawd.<br>(b) Rhaid i unrhyw ychwanegiad o'r sylwedd fod ar ffurf y naill neu'r llall o'r canlynol, neu gyfuniad o'r canlynol—<br>(i) asid nicotinig sy'n cydymffurfio â'r meini prawf yn y monograff ar gyfer asid nicotinig a gynhwysir yn y British Pharmacopoeia 2023 ar dudalen II-404;<br>(ii) nicotinamid sy'n cydymffurfio â'r meini prawf yn y monograff ar gyfer nicotinamid a gynhwysir yn y British Pharmacopoeia 2023 ar dudalen II-399. |
| **Thiamin (fitamin B1)** | (a) O leiaf 0.24 mg/100 g o flawd.<br>(b) Rhaid i unrhyw ychwanegiad o'r sylwedd fod ar ffurf thiamin hydroclorid sy'n cydymffurfio â'r meini prawf yn y monograff ar gyfer thiamin hydroclorid a gynhwysir yn y British Pharmacopoeia 2023 ar dudalen II-1129. |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# ATODLEN 2

Rheoliad 3 ac Atodlen 1

## Y fanyleb ar gyfer E 170 calsiwm carbonad

**Y fanyleb ar gyfer E 170 calsiwm carbonad at ddiben Atodlen 1, paragraff 1, Tabl 1**

| | |
|---|---|
| **Cyfystyron** | CI Pigment White 18; Chalk |
| **Diffiniad** | Calsiwm carbonad yw'r cynnyrch a geir o galchfaen mâl neu gan ddyddodiad ïonau calsiwm gydag ïonau carbonad. |
| Rhif Colour Index | 77220 |
| Rhif EINECS[(1)] | Calsiwm carbonad: 207-439-9<br>Calchfaen: 215-279-6 |
| Enw cemegol | Calsiwm carbonad; |
| Fformiwla gemegol | $CaCO_3$ |
| Pwysau moleciwlaidd | 100.1 g/mol |
| Prawf | Cynnwys ≥ 98 % ar sail anhydrus |
| Disgrifiad | Powdr crisialog gwyn neu amorffaidd, di-arogl a di-flas |
| **Dull adnabod** | |
| Hydoddedd | Fwy neu lai yn anhydawdd mewn dŵr ac mewn alcohol. Yn hydoddi ag eferwad mewn asid asetig gwanedig, mewn asid hydroclorig gwanedig ac mewn asid nitrig gwanedig, ac mae'r hydoddiannau sy'n deillio o hynny, ar ôl berwi, yn rhoi profion positif ar gyfer calsiwm. |
| **Purdeb** | |
| Colled wrth sychu | ≤ 2.0% (200°C, 4 awr) |
| Sylweddau anhydawdd mewn asid | ≤ 0.2% |
| Magnesiwm a halen alcalïaidd | ≤ 1.0% |
| Fflworid | ≤ 50 mg/kg |
| Antimoni (Sb) | ≤ 100mg/kg, yn unigol neu mewn cyfuniad |
| Copor (Cu) | |
| Cromiwm (Cr) | |
| Sinc (Zn) | |
| Bariwm (Ba) | |
| Arsenig (As) | ≤ 3 mg/kg |
| Plwm (Pb) | ≤ 3 mg/kg |
| Cadmiwm (Cd) | ≤ 3 mg/kg |
| Ethylen ocsid[(2)] | Ni ddylai cyfanswm gweddillion ethylen ocsid, waeth beth fo'u tarddiad, fod yn fwy na 0.1 mg/kg. |

(1) Stocrestr Ewropeaidd o Sylweddau Cemegol Masnachol Presennol, fel y'i cyhoeddir yn OJ Rhif C 146A, 15.6.1990, t. 1.

(2) Swm o ethylen ocsid a 2-cloroethanol wedi ei fynegi fel ethylen ocsid (h.y. ethylen ocsid + (0.55 × 2-cloroethanol).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# ATODLEN 3

Rheoliad 3 ac Atodlen 1

## Y fanyleb ar gyfer powdr haearn

**Y fanyleb ar gyfer powdr haearn at ddiben Atodlen 1, paragraff 2, Tabl 2**

| | |
|---|---|
| Diffiniad | Powdr haearn sydd wedi ei gyfansoddi o haearn metelig wedi ei wahanu yn fân sy’n cynnwys o leiaf 90% o haearn yn ôl pwysau ac yn cydymffurfio â gofynion yr Atodlen hon. |
| Enw cemegol | Haearn |
| Fformiwla gemegol | Fe |
| Prawf | Pwyso 0.25 g o sampl yn gywir i mewn i fflasg â chaead. Ychwanegu hydoddiant poeth o 1.25 g o gopr sylffad pentahydrad mewn 20 ml o ddŵr ac ysgwyd am 10 munud. Hidlo’n gyflym a golchi’r hidlydd â dŵr; asideiddio’r hidlif cymysg a’r golchion ag asid sylffwrig, a thitradu â photasiwm permanganad N/10. Mae pob ml o botasiwm permanganad N/10 yn cyfateb i 0.005585 g o haearn. |
| Disgrifiad | Powdr llwyd-ddu mân o’r fath ronynnedd fel nad yw mwy na 0.1% yn ôl pwysau yn weddill ar ridyll weiren Safon Brydeinig 410:1969[(1)] maint agorfa enwol 150 µm a dim mwy na 5% yn ôl pwysau ar ridyll weiren Safon Brydeinig 410:1969 maint agorfa enwol 53 µm. |
| **Dull adnabod** | |
| Hydoddedd | O leiaf 95% o’r cynnwys haearn pan ganfyddir hynny drwy’r dull canlynol.<br><br>Pwyso 0.1 g o sampl yn gywir i mewn i fflasg gonigol 750 ml. Ychwanegu 450 ml 0.2% yn ôl pwysau o asid hydroclorig a gynheswyd yn flaenorol i 37°C. Troi yn barhaus am 3 awr, gan gynnal y tymheredd ar 37°C. Oeri i dymheredd ystafell a gwanedu i 500 ml â dŵr distyll. Hidlo; canfod cynnwys haearn yr hidlif drwy ddull addas. Cyfrifo cyfanswm yr haearn yn yr hydoddiant fel canran o gynnwys haearn metelaidd y sampl a gymerir. |

(1) BS 410:1969 “Specification of test sieves”. Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 31 Awst 1971. Ar gael yn: https://knowledge.bsigroup.com.